

Crynodeb Gweithredol

TraCC

Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yw'r Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, sy'n cwmpasu siroedd Ceredigion, Powys a rhan o Wynedd (sef hen ddosbarth Meirionnydd) ac mae'n cynnwys rhannau o Barciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog. Mae'r Consortiwm yn dymuno cydweithio'n fewnol a gyda phartneriaid i gyflwyno gwelliannau i'r system drafnidiaeth sydd o fewn, neu'n arwain i ranbarth TraCC.

Y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynnu bod pob un o'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r Cynllun wedi cynnal dadansoddiad o broblemau symud yng Nghanolbarth Cymru – teithwyr a nwyddau, ffyrdd a rheilffyrdd. Y mae wedi sefydlu Gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth, datblygu polisïau trafnidiaeth i ddelio â phroblemau penodol ac i ymateb i gyfleoedd. Wrth baratoi'r Cynllun mae TraCC wedi tynnu o ystod eang o bolisïau polisi - Cymru'n Un, Cynllun Gofodol Cymru, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'r dogfennau polisi pwysig eraill yn cynnwys rhai ar gynaliadwyedd, newid hinsawdd, cynllunio iechyd gwledig a'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn.

Dyma sut y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cael ei adeiladu:

- Adran 1** - Cyflwyniad
- Adran 2** - Cyd-destun Polisi Trafnidiaeth
- Adran 3** - Dadansoddiad o Broblemau a Chyfleoedd
- Adran 4** - Gweledigaeth, Blaenoriaethau ac Amcanion TraCC
- Adran 5** - Ymyriadau a Chynhyrchu Opsiynau
- Adran 6** - Rhaglen 5 mlynedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Adran 7** - Cydrannau Cysylltiedig
- Adran 8** - Strategaeth Fwy Hirdymor
- Adran 9** - Ymgynghori
- Adran 10** - Rhaglen Fonitro





Gweledigaeth TraCC

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer rhanbarth TraCC yw:

'Cynllunio ar gyfer, a darparu mewn partneriaeth, system drafnidiaeth integredig yn rhanbarth TraCC sy'n hwyluso datblygu economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn parchu'r amgylchedd'

Blaenoriaethau Rhanbarthol TraCC

Deg Blaenoriaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw:

- Lleihau'r galw am deithio
- Lleihau effaith mudo ar yr amgylchedd lleol a byd-eang a sicrhau'r lefelau uchaf o warchodaeth i Safleoedd Ewropeaidd
- Gwella diogelwch eiddo a diogelwch personol holl ddefnyddwyr trafndiaeth
- Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau ym mhob sector o gymdeithas
- Gwella ansawdd ac integreiddiad y system drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys swyddogaeth trafndiaeth gymunedol
- Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau cynaliadwy o deithio
- Cynnal a gwella'r seilwaith trafndiaeth presennol (ffyrdd a rheilffyrdd)
- Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau defnydd tir
- Gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chysylltedd mudo pob dull o deithio o fewn Canolbarth Cymru a rhwng y canolbarth a rhanbarthau eraill yng Nghymru a Lloegr
- Darparu rhwydwaith cydgysylltiedig ac integredig o deithio a thrafnidiaeth trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Lluniwyd cyfres o Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau rhanbarthol, ac mae hynny'n gosod set o feini prawf ar gyfer asesu opsiynau ac ymyriadau, yn ogystal â monitro llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Lleol.

Ymyriadau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae TraCC wedi dynodi saith ymyriad allweddol y canolbwyntir arnynt yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau rhanbarthol, lliniaru'r problemau rhanbarthol a ddynodir a chyflawni cyfleoedd er budd trigolion, busnesau ac ymwelwyr i Ganolbarth Cymru:

- **Ymyriad 1** – Lleihau'r Angen i Deithio
- **Ymyriad 2** – Lleihau Effeithiau Amgylcheddol
- **Ymyriad 3** – Gwella Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol
- **Ymyriad 4** – Gwella Mynediad
- **Ymyriad 5** – Annog Teithio Cynaliadwy
- **Ymyriad 6** – Gwella Cysylltiadau Strategol
- **Ymyriad 7** – Dylanwadu ar Gynllunio Defnydd Tir



Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn Ddogfen Gynigion

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddogfen fydd yn cael ei defnyddio i wneud cais am gyllid a ddyrennir gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiectau trafndiaeth ar draws pob rhan o Gymru. Mae'r cais yn cwmpasu'r pum mlynedd rhwng 2010/11 - 2014/15. Mae'r canllawiau ar gyfer y Cynllun yn argymhell y dylai gynnwys o leiaf dair rhaglen, yn adlewyrchu tair gwahanol sefyllfa gyllidol. Mae TraCC wedi paratoi tair rhaglen, **Gwneud cyn lleied ag sydd raid** (y gwrth-ddewis sy'n cael ei ffafrio leiaf), **Cam-i-fyny** (y gwrth-ddewis sy'n cael ei ffafrio) a **Newid Lefel** (y dewis sy'n cael ei ffafrio fwyaf).

Mae'r rhaglen 'gwneud cyn lleied ag sydd raid' wedi cael ei seilio ar gyfartaledd lefel cyllid a gafwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf trwy'r Grant Trafnidiaeth yn rhanbarth TraCC, hynny yw £9 miliwn y flwyddyn. Dyma grynodedb o'r tair rhaglen y mae TraCC wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

	Cyfanswm Gwariant (£000)					
	2010/11	2012/12	2012/13	2013/14	2014/15	Cyfanswm
Gwneud cyn lleied ag sydd raid	9,000	10,000	12,000	12,000	12,000	55,000
Cam-i-fyny	9,000	12,000	15,000	20,000	20,000	76,000
Newid lefel	9,000	16,000	20,000	25,000	30,000	100,000

Er mwyn rhoi cnaud i'r rhaglen, nodwyd rhestr hir o brosiectau gan bob un o'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, ar ben y rhai y cyfeiriwyd atynt mewn adroddiadau a strategaethau blaenorol. Gwnaeth TraCC werthusiad cychwynnol yn seiliedig ar Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ac Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Lle bo'n briodol, gwnaethpwyd gwerthusiad WelTAG Cyfnod 1 o'r cynlluniau a gafodd y flaenoriaeth uchaf yn dilyn y gwerthusiad.

Yn ogystal â chyllido Ffyrdd Cyswllt Ceredigion - **£5.58 miliwn** (ymrwymiad blaenorol) mae blwyddyn gyntaf y rhaglen - 2010/11 yn cynnwys y canlynol:

Gwella Trafnidiaeth i Deithwyr - £625,000

- Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth Gyhoeddus (bws a thrên)
- Datblygu Rhwydwaith Bysus Rhanbarthol
- Trên Ffordd Cei Newydd
- Datblygu Parcio a Theithio
- Gwella Trafnidiaeth Gymunedol

Mentrau Trafnidiaeth Gynaliadwy a Gwella Hygyrchedd £1,225,000

- Trefi Teithio Cynaliadwy
- Hybu Dewisiadau Doethach
- Gwelliannau i Rwydweithiau Beicio Trefi
- Cynlluniau Beicio a Cherdded
- Cysylltiadau gyda Llwybrau'r Arfordir ac Atyniadau i Ymwelwyr
- Llwybr Beicio Cardi Bach
- Llwybr Aml Ddefnydd Tywyn i Fryn-crug
- Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Symudol
- Parcio a Theithio Cymunedol/Rhannu Ceir
- Prosiectau yn Gysylltiedig ag Adfywio

Gwelliant Rhwydwaith £1,300,000

- Parc y Llyn, Aberystwyth
- A486 Cynllun Cysylltedd Ffordd Gyswllt Ceredigion
- Port Briwet, Penrhyndeudraeth

Blaengynllunio a Rheolaeth - £270,000

- Costau Datblygu Cychwynnol
- Rheoli a Monitro Rhaglen TraCC



Strategaeth Hirdymor TraCC

Yn ogystal â rhaglen pum mlynedd, mae angen strategaeth fwy hirdymor ar gyfer Canolbarth Cymru am y 30 mlynedd nesaf. Dyma rai o'r materion y bydd angen rhoi sylw iddynt:

- Pryder cynyddol ynglŷn â'r amgylchedd, yn arbennig newid hinsawdd;
- Y cynnydd ym mhrisiau tanwydd;
- Yr angen a'r cyfleoedd i ddatblygu tanwydd amgen (dim gollyngiadau neu ollyngiadau isel);
- Yr angen i gymunedau gwledig gadw hunaniaeth gref;
- Poblogaeth sy'n heneiddio (cynnydd o 228% yn nifer y bobl dros 85 oed rhwng 2001 a 2031) ond poblogaeth sy'n gynyddol yn fwy teithiol;
- Y gallu i ddatblygu diwydiannau mwy gwerthfawr yn seiliedig ar wybodaeth mewn ardaloedd gwledig; a'r
- Angen i gael gwared ar yr allgau cymdeithasol a achosir gan hygyrchedd cyfyngedig gwasanaethau a chyfleoedd.

Bydd blaenoriaethau mwy hirdymor TraCC yn canolbwyntio ar - leihau'r galw am deithio, lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, yn arbennig y ffactorau sy'n effeithio ar newid hinsawdd, sicrhau bod teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau ynglŷn â defnydd tir a sicrhau bod y gyfundrefn/rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru yn effeithlon ac yn ddibynadwy a'i bod yn gwella hygyrchedd i bawb.

Ymgynghoriadau

Wrth baratoi ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol mae TraCC wedi ymgynghori'n eang gydag awdurdodau lleol, y Parciau Cenedlaethol, rhanddeiliaid allweddol, a phartïon cysylltiedig eraill. Cynhaliwyd nifer o weithdai a chyflwyniadau yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at 2350 o ymatebion.

I gefnogi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gwnaethpwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol a llym Adroddiad Sgrinio o dan yr Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd. Yn ogystal â'r brif ddogfen, paratowyd Atodiad, sy'n cynnwys yr wybodaeth a'r data cefndirol y seiliwyd y Cynllun arno.

Mae copi llawn o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan TraCC www.tracc.gov.uk ac mae ar gael am ddim ar gwyno ddisg. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan TraCC neu trwy anfon e-bost at enquiries@tracc.gov.uk

